WCFD
DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

# CEFNOGI CYMUNEDAU I SEFYDLU HYBIAU BWYD

## LLAWLYFR CYNEFINO AR GYFER GWIRFODDOLWYR

CYSYLLTWCH Â'R TÎM:
WCFD@planed.org.uk
07502 050099

EWCH I'N GWEFAN
WWW.COMMUNITYFOOD.WALES

PLANED

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYNNWYS:


| | |
|---|---|
| Rhagair a Chroeso | 2 |
| Gwybodaeth Bwysig | 3 |
| Y Broses Gynefino | 5 |
| Gwybodaeth ynglŷn â'ch Canolfan Fwyd Gymunedol | 6 |
| Swydd-ddisgrifiadau'r Gwirfoddolwyr | 8 |
| Cyfleoedd Hyfforddi a Datblygu | 12 |
| Polisïau a Gweithdrefnau'r Gwirfoddolwyr | 13 |
| Rhestr Wirio'r Cyfnod Cynefino | 14 |
| Cwestiynau Cyffredin | 15 |
| Darllen pellach | 17 |



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government




WCFD
DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

# RHAGAIR A CHROESO

## CEFNDIR

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20, a gyllidir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Mae prosiect PLANED Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru (DBCC) wrth eu boddau yn cefnogi lansiad y canolfannau bwyd cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr er mwyn cynyddu mynediad at fwyd ffres a gwerth gwych am arian.

Mae'r tîm wedi creu'r llawlyfr hwn i'ch arwain chi drwy'r broses o ddod yn Wirfoddolwr mewn Canolfan Fwyd Gymunedol.

### MAE YNA NIFER O FUDDION O FOD YN WIRFODDOLWR CANOLFAN FWYD, GAN GYNNWYS:

- Gwirfoddoli yn eich cymuned leol
- Gwneud cysylltiadau newydd yn y gymuned
- Datblygu a dysgu sgiliau newydd
- Cyfleoedd Hyfforddi
- Bod yn rhan o brosiect a rhwydwaith ehangach gyda chanolfannau bwyd rhanbarthol

Yn ogystal, rydych chi'n derbyn barclodiau a chrysau-T i'w gwisgo os ydych chi'n dewis ac nid oes unrhyw deithio ynghlwm â'r swydd.

> “DIOLCH I CHI AM DDOD YN WIRFODDOLWR CANOLFAN FWYD GYMUNEDOL”



PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# GWYBODAETH BWYSIG

**Rydych yn cael y llawlyfr hwn ar gyfer cyfeirio ato yn y dyfodol. Cwblhewch yr adran hon cyn eich diwrnod cyntaf os gwelwch yn dda.**

Fy enw:

_______________________________________________

Enw fy Nghanolfan Fwyd:

_______________________________________________

Fy Swydd:

_______________________________________________

Fy nyddiad cychwyn:

_______________________________________________

Fy manylion sifft/rota:

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

Sut ydw i'n cofnodi fy oriau?

_______________________________________________

_______________________________________________

_______________________________________________

Cyfeiriad a manylion cyswllt ar gyfer eich Canolfan Fwyd Gymunedol:

Enw a manylion cyswllt eich Goruchwyliwr:

Dyddiadau a manylion pwysig:

Beth i'w wneud os nad ydych chi'n mynychu sifft?

WCFD
DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

# Y BROSES GYNEFINO

**Pan fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch chi'n cael eich gwahodd i ddechrau'r broses gynefino i ddod yn Wirfoddolwr ar gyfer eich Canolfan Fwyd Cymunedol. Diben y broses gynefino yw eich cefnogi chi i bontio i'ch swydd newydd a'ch helpu chi i ddeall y ffordd y mae'r ganolfan fwyd yn gweithio.**

**CAM 1**

Byddwch chi'n cwrdd â'ch Goruchwyliwr ac yn cael taith o gwmpas y lleoliad a'r cyfleusterau. Bydd yn darparu'r llawlyfr hwn ac yn rhoi eglurhad amdano er mwyn sicrhau eich bod yn deall eich swydd a'ch dyletswyddau. Drwy ddefnyddio'r llawlyfr hwn a'r adnoddau atodol sy'n cael eu darparu gan eich goruchwyliwr, mae disgwyl i chi ddarllen y polisïau a'r wybodaeth iechyd a diogelwch perthnasol. Gweler tudalen 13.

**CAM 2**

Bydd gofyn i chi gysgodi ar ddiwrnod y mae'r ganolfan fwyd ar agor, lle y byddwch chi'n cwrdd â'ch tîm ac yn dysgu am eich swydd. Bydd eich Goruchwyliwr neu wirfoddolwr arall yn dangos ac yn egluro i chi beth yw eich swydd. Yn ogystal, byddwn yn dangos i chi sut i gofnodi eich oriau ac yn eich cyflwyno i'r rota gwirfoddolwyr ac yn dewis y dyddiau y gallwch chi wirfoddoli.

**CAM 3**

Efallai bydd gofyn i chi gwblhau rhywfaint o hyfforddiant rhad ac am ddim cyn eich diwrnod cyntaf, fel Hylendid Bwyd neu hyfforddiant Cymorth Cyntaf.

**CAM 4**

Eich diwrnod cyntaf! Byddwch chi'n parhau i fod gyda gwirfoddolwr arall wrth i chi ymsefydlu ac ymgyfarwyddo â'r swydd. Gallwch chi ofyn unrhyw gwestiynau ac efallai y byddwch chi'n dymuno gweld eich Goruchwyliwr wedyn.

**YN AWR, RYDYCH CHI'N BAROD AC YN RHAN O ROTA FISOL, DREIGLOL Y GWIRFODDOLWYR!**



PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# GWYBODAETH AM EICH CANOLFAN FWYD CYMUNEDOL

**Rydych yn cael y llawlyfr hwn ar gyfer cyfeirio ato yn y dyfodol. Cwblhewch yr adran hon cyn eich diwrnod cyntaf os gwelwch yn dda.**

Pa bryd mae eich canolfan ar agor i gwsmeriaid?

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

Pa fath o fwyd mae eich canolfan yn ei werthu?

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

Pwy sy'n cyflenwi'r bwyd i'ch canolfan fwyd?

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

____________________________________________

Sut mae pobl yn derbyn gwybodaeth am eich canolfan?

At bwy y dylwn i gyfeirio ymholiadau ac adborth gan gwsmeriaid?

Nodiadau/pethau i'w cofio:

DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

# SWYDD-DDISGRIFIADAU'R GWIRFODDOLWYR

## Swydd-ddisgrifiad Gwirfoddolwr y Ganolfan Fwyd Gymunedol (1/2)

Fel rhan o raglen beilot Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru, mae canolfannau bwyd cymunedol yn ffordd wych o gysylltu pobl â lle y daw bwyd. Mae'r prosiect yn hwyluso gwirfoddolwyr i gysylltu â chynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd i gael mynediad hawdd at fwyd iach a gwerth am arian.

| | |
|---|---|
| TEITL | **Gwirfoddolwr Canolfan Fwyd Gymunedol – Prif Wirfoddolwr** |
| DIBEN | Goruchwylio'r ganolfan fwyd wythnosol a goruchwylio'r tîm |
| GWEITHGAREDDAU A AWGRYMWYD | Fel prif wirfoddolwr, byddwch chi'n:<br>• Hwyluso ymholiadau at y ganolfan fwyd<br>• Goruchwylio'r broses o recriwtio gwirfoddolwyr a'r rota dreiglol<br>• Goruchwylio'r broses o farchnata a hyrwyddo'r ganolfan fwyd yn y gymuned<br>• Cysylltu â'r lleoliad, cyflenwr/cyflenwyr a thîm DBCC<br>• Trefnu archebion y cwsmeriaid yn unol â GDPR<br>• Goruchwylio Gwirfoddolwyr Cynorthwyol y Cwsmeriaid<br><br>Gallwch chi ofyn i Wirfoddolwyr Cynorthwyol y Cwsmeriaid i ymgymryd â rhai o'r tasgau uchod, fel ymateb i ymholiadau a chysylltu â thîm DBCC. |
| AMSER | Ar sail rota, rydym yn gobeithio y byddwch chi'n gallu cyfrannu at leiafswm o 3 awr bob mis calendr. |
| SAFLE/LLEOLIAD | Yn eich Canolfan Fwyd Gymunedol |



PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Swydd-ddisgrifiad Gwirfoddolwr y Ganolfan Fwyd Gymunedol (1/2) - Parhau

**GORUCHWYLIAETH**

Bydd Aelod o Dîm y Ganolfan Fwyd Gymunedol yn eich Goruchwylio.

**PRIODWEDDAU**

Fel Prif Wirfoddolwr, byddwch chi angen bod yn hyderus i oruchwylio rota'r gwirfoddolwyr ac wrth archebu. Bydd holl wirfoddolwyr y ganolfan Fwyd angen meddu ar sgiliau cyfathrebu a gwasanaeth cwsmeriaid a dylen nhw fod yn gwrtais ac yn foneddigaidd bob amser.

**BUDDION**

Mae llawer o fuddion wrth fod yn wirfoddolwr canolfan fwyd, gan gynnwys:

- Gwirfoddoli yn eich cymuned leol
- Creu cysylltiadau newydd yn y gymuned
- Datblygu sgiliau
- Cyfleoedd Hyfforddi
- Bod yn rhan o brosiect ehangach a rhwydweithio gyda chanolfannau bwyd rhanbarthol

Yn ogystal, rydych yn cael eich darparu â barclodiau a chrysau-T i'w gwisgo os ydych chi'n dewis ac nid oes unrhyw deithio ynghlwm â'r swydd.

**RISGIAU**

Gweler y polisïau asesu risg a'r polisïau perthnasol. Gweler tudalen 13 o'r Llawlyfr Cynefino.



PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WCFD
DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

# SWYDD-DDISGRIFIADAU'R GWIRFODDOLWYR

## Swydd-ddisgrifiad Gwirfoddolwr y Ganolfan Fwyd Gymunedol (2/2)

Fel rhan o'r rhaglen beilot Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru, mae canolfannau bwyd yn ffordd wych o gysylltu pobl â lle y daw bwyd. Mae'r prosiect yn hwyluso gwirfoddolwyr i gysylltu â chynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd i gael mynediad hawdd at fwyd iach a gwerth da am arian.

| | |
|---|---|
| TEITL | **Gwirfoddolwr Canolfan Fwyd Gymunedol – Cynorthwy-ydd Cwsmeriaid** |
| DIBEN | Hwyluso'r ganolfan fwyd bob wythnos. |
| GWEITHGAREDDAU A AWGRYMWYD | Bob wythnos, byddwch chi'n:<br>• Derbyn nwyddau gan gyflenwyr a pharatoi archebion ar gyfer cwsmeriaid<br>• Agor y ganolfan fwyd, gweini cwsmeriaid a chymryd eu harchebion<br>• Tacluso, glanhau a chau'r ganolfan<br>• Cynorthwyo eich Prif Wirfoddolwr gyda'r archebion wythnosol a'r dyletswyddau gweinyddol. |
| AMSER | Ar sail rota, rydym yn gobeithio y byddwch chi'n gallu cyfrannu lleiafswm o 3 awr bob mis calendr neu un sesiwn y mis ar gyfer un ganolfan |
| SAFLE/LLEOLIAD | Yn eich Canolfan Fwyd Gymunedol |



PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Community Food Hub Volunteer Role Description (2/2) Continued

**GORUCHWYLIAETH**

Mae eich Prif Wirfoddolwr yn gyfrifol am eich goruchwylio ac ef yw eich prif gyswllt. Bydd yn:

- Hwyluso ymholiadau at y ganolfan fwyd
- Goruchwylio'r broses o recriwtio gwirfoddolwyr a'r rota dreiglol
- Goruchwylio'r broses o farchnata a hyrwyddo'r ganolfan fwyd yn y gymuned
- Cysylltu â'r lleoliad, cyflenwr/cyflenwyr a thîm DBCC
- Eich cynorthwyo chi i gydymffurfio â rheoliadau GDPR
- Goruchwylio'r cyllid wythnosol.

**PRIODWEDDAU**

Bydd holl wirfoddolwyr y ganolfan Fwyd angen meddu ar sgiliau cyfathrebu a gwasanaeth cwsmeriaid a dylen nhw fod yn gwrtais ac yn foneddigaidd bob amser.

**BUDDION**

Mae nifer o fuddion o fod yn wirfoddolwyr canolfan fwyd, gan gynnwys:

- Gwirfoddoli yn eich cymuned leol
- Gwneud cysylltiadau newydd yn y gymuned
- Datblygu sgiliau
- Cyfleoedd Hyfforddi
- Bod yn rhan o brosiect ehangach a rhwydweithio gyda chanolfannau bwyd rhanbarthol

Yn ogystal, rydych yn cael eich darparu â barclodiau a chrysau-T i'w gwisgo os ydych chi'n dewis, ac nid oes unrhyw deithio ynghlwm â'r swydd.

**RISGIAU**

Gweler y polisïau asesu risg a'r polisïau perthnasol.Gweler tudalen 13 o'r Llawlyfr Gynefino.



PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYFLEOEDD HYFFORDDI A DATBLYGU

**Adnoddau gan y tîm WCFD**
**https://www.communityfood.wales/**

**Adnoddau rhad ac am ddim gan Ganolfan Wybodaeth Cymorth Trydydd Sector Cymru**
**https://thirdsectorsupport.wales/**

**Ymwelwch â'ch cymdeithas wirfoddol leol ar gyfer rhagor o wybodaeth:**

**Ceredigion yw CAVO**
**https://www.cavo.org.uk/**

**Sir Gaerfyrddin yw CAVS**
**https://cavs.org.uk/**

**Sir Benfro yw PAVS**
**https://www.pavs.org.uk/**

**Gwella eich sgiliau iaith Gymraeg gyda *Learn Welsh***
**https://learnwelsh.cymru/**



WCFD
DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

PLANED

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WCFD
DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

# POLISIAU A GWEITHDREFNAU AR GYFER GWIRFODDOLWYR

**Yn ystod eich proses gynefino, bydd eich Goruchwyliwr yn darparu mynediad at yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau perthnasol, byddan nhw'n trafod y rhain gyda chi, ond mae disgwyl i chi ddarllen yr holl ddeunyddiau a chyfeirio unrhyw gwestiynau at eich Goruchwyliwr cyn eich diwrnod cyntaf.**

**Mae'r polisïau, y gweithdrefnau a'r canllawiau yr ydych chi angen bod yn ymwybodol ohonyn nhw a chael mynediad atyn nhw yn cynnwys:**

- Eich Swydd-ddisgrifiad
- Taflen Gofnodi Oriau'r Gwirfoddolwr
- Rota Misol y Gwirfoddolwr a mynediad at ddiweddariadau
- Y Polisi Gwirfoddoli
- Y Polisi Cyfleoedd Cyfartal
- Y Polisi Cwynion
- Y Polisi Diogelu Data
- Y Polisi Côd Ymddygiad
- Canllawiau'r Iaith Gymraeg
- Y Polisi Diogelu
- Asesiadau Risg
- Cymryd rhan mewn 'Goruchwyliaethau'
- Canllawiau Brandio a Chyhoeddusrwydd



PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# RHESTR WIRIO'R CYNEFINO

**Cwblhewch yr adran hon cyn eich diwrnod cyntaf os gwelwch yn dda. Os oes unrhyw beth ar goll, rydym yn awgrymu eich bod yn cysylltu â'ch Goruchwyliwr er mwyn sicrhau eich bod yn cwblhau'r cynefino cyn eich diwrnod cyntaf.**

| Rhestr Wirio'r Cynefino | Ticiwch a nodwch y dyddiad pan mae wedi cael ei gwblhau | Nodiadau |
|---|---|---|
| A ydych chi wedi cwrdd â'ch Goruchwyliwr ac wedi nodi ei fanylion cyswllt? | | |
| A ydych chi wedi cael taith o gwmpas y lleoliad a'r cyfleusterau? | | |
| A ydych chi wedi derbyn eich llawlyfr Cynefino ac wedi cael mynediad at y polisïau a'r gweithdrefnau? | | |
| A ydych chi wedi gallu cysgodi gwirfoddolwr arall a dysgu am eich swydd? | | |
| A ydych chi wedi cael y cyfle i ofyn cwestiynaui'ch Goruchwyliwr yn dilyn eich sifft cysgodi? | | |
| A ydych chi'n deall y broses gynefino â'ch swydd fel Gwirfoddolwr yn y Ganolfan Fwyd Gymunedol? | | |
| A wnaethoch chi gwblhau cam 3 o'r hyfforddiant? | | |
| A ydych chi'n teimlo'n hyderus wrth weini cwsmeriaid a siarad am y ffordd y mae'r ganolfan fwyd yn gweithio? | | |
| A ydych chi wedi cwblhau'r llawlyfr hwn? | | |
| A ydych chi wedi trefnu Goruchwyliaeth gyda'ch Goruchwyliwr? | | |

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

## SUT YDW I'N GWYBOD PWY YW FY NGORUCHWYLIWR?

Os ydych chi'n Gynorthwy-ydd Cwsmeriaid, yna'r Prif Wirfoddolwr yw eich Goruchwyliwr. Os ydych chi'n Brif Wirfoddolwr, yna bydd y ganolfan fwyd yn rhoi gwybod i chi yn ystod y broses recriwtio pwy yw eich Goruchwyliwr.

## BETH DDYLWN I DDOD GYDA MI AR FY NIWRNOD CYNTAF?

Gallwch chi siarad gyda'r gwirfoddolwyr eraill ar y diwrnod yr ydych chi'n cysgodi er mwyn darganfod beth maen nhw'n ddod gyda nhw.

## A YDW I FOD I WISGO IWNIFFORM?

Mae WCFD wedi darparu crysau-T a barclodiau ar gyfer y canolfannau. Siaradwch â'ch Goruchwyliwr ynglŷn â beth i'w wisgo.

## A YW GWIRFODDOLWYR YN CAEL AMSER I FFWRDD AR GYFER GWYLIAU?

Ydyn, mae gennych chi hawl i gael amser i ffwrdd ac mae'r amser y gallwch chi ei gynnig yn cael ei werthfawrogi. Awgrymwn eich bod yn siarad â'ch Goruchwyliwr ynglŷn â pha bryd yr ydych chi ar gael i wirfoddoli, ond ceisiwch roi rhybudd ynglŷn â pha bryd nad ydych chi ar gael, fel ei fod yn gallu cael gwirfoddolwyr eraill i weithio yn eich lle.

## FAINT O AMSER FYDD YN RHAID I MI WIRFODDOLI YN Y SWYDD HON?

Chi ddylai benderfynu hynny. Awgrymwn eich bod yn siarad â'ch Goruchwyliwr yn eich cyfarfod cyntaf ynglŷn â pha mor hir y gallwch chi ymrwymo i'r swydd. Rydym yn awgrymu eich bod yn gwirfoddoli yn y swydd am o leiaf chwe mis, oherwydd ei fod yn cymryd amser ac adnoddau i gynefino gwirfoddolwyr newydd.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## SUT YDW I'N CYFNEWID SIFFTIAU NEU NEWID Y FFORDD YR YDW I'N GWIRFODDOLI?

Siarad â'ch Goruchwyliwr. Efallai eich bod chi a'ch cyd-wirfoddolwyr yn defnyddio sgyrsiau mewn grŵp i gyfathrebu a chyfnewid sifftiau.

## A ALLAF WIRFODDOLI MEWN CANOLFANNAU BWYD CYMUNEDOL ERAILL?

Gallwch, byddai hynny yn wych os oes ganddyn nhw swyddi gwag. Er hynny, efallai y byddwch chi angen cwblhau cwrs cynefino byr gyda'r ganolfan newydd oherwydd gallan nhw weithio mewn ffordd ychydig yn wahanol.

## SUT YDW I'N DATBLYGU FY SGILIAU YMHELLACH?

Mae pobl yn gwirfoddoli oherwydd gwahanol resymau ac mae'i wneud er mwyn datblygu a dysgu sgiliau newydd yn rheswm cyffredin. Edrychwch ar dudalen 12.

## MAE GEN I SYNIADAU AM FFYRDD I WELLA. GYDA PHWY Y DYLWN I SIARAD?

Mae hynny'n wych! Ewch â'r syniadau at eich Goruchwyliwr a gall ef ofyn i chi wneud ychydig mwy o ymchwil neu roi rhywbeth ar brawf.

## BETH I'W WNEUD OS YDW I'N DYMUNO GADAEL FY SWYDD GWIRFODDOLI?

Peidiwch â phoeni, os gallwch chi, ceisiwch roi rhybudd i'ch Goruchwyliwr fel y gall ddod o hyd i wirfoddolwyr eraill. Os ydych chi'n gorfod gadael oherwydd bod eich amgylchiadau personol wedi newid, yna efallai y gallwch chi wneud rhai newidiadau yn lle gadael neu gymryd rhywfaint o amser i ffwrdd o'r swydd.



PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DARLLEN PELLACH A MANYLION DEFNYDDIOL

**Rhagor o wybodaeth a dolenni at ganolfannau eraill y Prosiect Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru:**
**https://www.communityfood.wales/**

**Adnoddau dysgu defnyddiol gan Tyfu Cymru:**
**https://www.tyfucymru.co.uk/home/knowledge-hub/**

**Pecyn cymorth defnyddiol ar gael Bartneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg:**
**https://www.westglamorgan.org.uk/wgvs/**

> “RYDYM YN GOBEITHIO Y BYDDWCH CHI’N MWYNHAU EICH AMSER FEL GWIRFODDOLWR CANOLFAN FWYD GYMUNEDOL.
> DIOLCH I CHI AM EICH CEFNOGAETH!”



WCFD
DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION
PLANED
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government